# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Iau, 4 Gorffennaf 2013 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr James Davies, Peter Arnold Evans, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Bob Murray, Cefyn Williams, Cheryl Williams a/ac Huw Williams

Sylwedyddion: Y Cynghorwyr David Smith a/ac Bobby Feeley

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (HW), Rheolwr Datblygiad Economaidd a Busnes (TB), Rheolwr Rheolaeth Datblydiad (PM), Pennaeth Amgylchedd (SP), Rheolwr Gwella Gwasanaethau (VR), Rheolwr Priffyrdd Strategol (MH), Rheolwr Adran: Rheoli'r Rhwydwaith (TT), Swyddog Strategaeth Tai (SL), Rheolwr Strategaeth Tai (SK), Rheolwr Gwasanaeth: Datblygiad Strategol (GG), Rhedwraig Tim Cefnogi Pobl (KN), Cydlynydd Archwilio (RE) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Rhys Hughes, Win Mullen-James a/ac Joe Welch

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na rhagfarnllyd.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 23 Mai 2013.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2013 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

## 5 RHAGLEN Y RHYL YN SYMUD YMLAEN (ADRODDIAD CHWARTEROL)

Cyflwynodd Rheolwr Datblygiad Economaidd a Busnes adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i ddarparu gwybodaeth am gynnydd yn nhermau gweithredu Strategaeth Adfywio Y Rhyl yn Symud Ymlaen.

Pedair prif ffrwd gwaith y rhaglen a'u statws ar hyn o bryd oedd:-

- Roedd gan Ardal Adfywio Gorllewin y Rhyl statws Oren ar y pryd
- Roedd gan Canol y Dref statws Oren ar y pryd
- Roedd gan Glan y Môr a Thwristiaeth statws Melyn ar y pryd
- Roedd gan Byw a Gweithio yn y Rhyl statws Oren ar y pryd

Wrth ystyried yr adroddiad, cafwyd trafodaethau fel a ganlyn:-

- Mae CSDd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Phennaf ar Brosiect Gwell Tai Gorllewin y Rhyl. Mae'r statws oren cyfredol yn dangos ansicrwydd am y prosiect wrth ddisgwyl am benderfyniad yr Archwilydd yn dilyn Ymchwiliad Cyhoeddus Gorchymyn Prynu Gorfodol. Er gwaetha'r penderfyniad, roedd cam nesaf y dymchwel – gogledd Gronant Street – i fod i ddechrau y mis hwn.
- Y lleoliad arfaethedig ar gyfer canolfan ddŵr newydd oedd ar y promenâd gyferbyn a'r tŵr awyr. Y cynllun i'r dyfodol oedd dymchwel yr Heulfan ac ailffurfweddu ac ailfodelu Theatr y Pafiliwn. Oherwydd agosrwydd y ganolfan ddŵr newydd i'r tŵr awyr, roedd hyn yn creu mwy o gyfleoedd ar gyfer defnyddio'r tŵr awyr yn y dyfodol. Ni wnaed penderfyniad am faint arfaethedig y pwll yn y ganolfan newydd hyd yn hyn. Mae'n annhebygol y bydd pwll cystadlu 50 metr yn cael ei adeiladu oherwydd cyfyngiadau ariannol a chyfyngiad lle sydd ar gael – gan y dylai pyllau cystadlu gael cyfleusterau pyllau cynhesu ac oeri ar yr un safle hefyd. Y ddau opsiwn arall i'w hystyried fyddai pwll pedair lôn 50 metr, neu pwll 25 metr gyda mwy o ddewis hamdden. Mae gwaith partner ar fodel ariannol manwl yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd. Byddai'n rhaid i'r ganolfan ddŵr fod yn gyfleuster gydol y flwyddyn ar gyfer y gymuned leol a denu ymwelwyr er mwyn iddo fod yn ymarferol yn ariannol.
- Cwblhawyd gwaith adnewyddu'r adeilad a adnabyddir fel y Bee Hotel yn flaenorol ac roedd un tenant wedi'i gadarnhau eisoes. Roedd yr adeilad yn darparu lle ar gyfer swyddfeydd o safon da ac felly nid oedd yr awdurdod lleol yn rhagweld unrhyw broblemau yn cael tenantiaid eraill i arwyddo.
- Datblygiad Ocean Plaza. Roedd y Cynghorydd Joan Butterfield wedi bod yn gweithio gyda'r Datblygwyr yn dilyn pryder yr Aelodau am flerwch y safle. Roedd y datblygwyr wedi cytuno i roi palis pren newydd yn y safle a bydd lefel y rwbel yn cael ei leihau a'i dirlunio. Byddai'r gwaith yn dechrau yn ystod y mis nesaf.
- Roedd canol y dref yn ganolbwynt cais am gyllid lleoedd llewyrchus llawn addewid. Byddai Queens Market yn cael ei gynnwys fel rhan o gais lleoedd llewyrchus llawn addewid. Petai'r cais yn llwyddiannus, gall fod gymaint a £5 miliwn bob blwyddyn. Byddai hyn yn ariannu nifer o brosiectau yng nghanol y dref rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2017. Byddai hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r Rhyl dros y tair i bum mlynedd nesaf.
- Harbwr y Rhyl. Roedd ail fraich y bont yn cael ei gosod yn fuan.
- Roedd dyluniadau Ysgol Uwchradd y Rhyl yn cael eu datblygu. Roedd archwiliadau'n cael eu cynnal i benderfynu sut i sicrhau bod y cyfleuster newydd yn gweithio ar gyfer y gymuned a chymunedau busnes ac fel ysgol hefyd. Byddai cyfleoedd technoleg yn creu busnes ychwanegol yn ystod y gyda'r nos a'r penwythnosau.

- Roedd adeilad Costigans gyferbyn â Gorsaf Drenau y Rhyl wedi'i adnewyddu'n llawn yn allanol. Roedd gwaith angen ei gwblhau tu mewn i'r adeilad, gan nad oedd llawer o ddiddordeb o ran tenantiaid arfaethedig yn rhentu'r adeilad yn anffodus. Felly, byddai'n rhaid adnewyddu tu mewn i'r adeiladu er mwyn annog tenant arfaethedig i ddefnyddio'r adeilad.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a nodi adroddiad cynnydd am weithredu Strategaeth Adfywio y Rhyl yn Symud Ymlaen.*

## 6 RHEOLI SAFLEOEDD CARAFANNAU

Cyflwynodd y Rheolwr Rheoli Datblygu adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) yn darparu gwybodaeth am gynnydd prosiect i fonitro a gorfodi rheoliadau deddfwriaethol ar safleoedd carafán yn y sir a rheoli adeiladu rhai newydd.

Roedd hyn yn ddiweddariad i'r adroddiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Gorffennaf 2011.

Y broblem yn y sir yw bod nifer o garafannau'n cael eu defnyddio fel prif breswylfa yn hytrach nag er diben gwyliau. Byddai angen casglu cryn dipyn o wybodaeth er mwyn canfod unrhyw doriadau i amodau cynllunio neu drwyddedu. Gall y parciau carafannau gael eu rheoleiddio gyda cheisiadau cynllunio a thrwyddedu newydd a byddai gofyn iddynt wneud y safleoedd yn gyfreithlon. Roedd Strategaeth Safle Carafannau yn cael ei lunio. Byddai Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn casglu gwybodaeth am y safleoedd carafannau, gan gynnwys treth y cyngor, gwybodaeth yr heddlu a'r gwasanaeth tân. Bydd Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd yn sefydlu Seminar Safleoedd Carafannau gyda pherchnogion parciau carafannau mawr.

Yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) nodwyd nad oedd unrhyw ofyniad i adeiladu mwy o safleoedd carafán sefydlog ychwanegol yn y sir, oni bai bod galw mewn perthynas â chefnogi twristiaeth yr ardal.

Roedd problemau'n codi petai pobl yn byw mewn carafán yn anghyfreithlon, gan fod posibilrwydd y byddant yn ddigartref. Byddai'n rhaid cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yn y mater hefyd.

Roedd yn rhaid rheoleiddio cynllunio gyda chamau gweithredu penodol i ddelio â'r broblem o garafannau preswyl ar safleoedd gwyliau. Roedd angen asesiad brys i weld a oedd yr awdurdod lleol wedi ailgartrefu unrhyw un mewn carafannau, a thrwy hynny'n cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol a thai.

Os yw safle carafannau'n cael ei ganfod yn torri'r rheoliadau ond nad oeddent yn gwneud cais am "newid defnydd", y dewis llym fyddai cau'r safle. Os mai hyn fydd y dewis, gallai'r sir gael eu gadael gyda safle gwag. Yr ail ddewis yw cyflwyno cais i'r Pwyllgor Cynllunio a nodi canran y lleiniau sy'n cael eu defnyddio fel lleiniau preswyl.

Mynegwyd pryderon gan yr aelodau am gyflymder y broses. Gofynnwyd am restr o'r safleoedd sy'n cael eu targedu. Roedd y ffaith bod nifer o bobl yn byw mewn carafannau'n cael ei ystyried fel treth ar adnoddau'r Cyngor. Byddai ymagwedd

amlasiantaethol a dadansoddiad risg/effaith yn cael eu llunio fel rhan o Strategaeth Safleoedd Carafannau. Byddai angen cefnogaeth Corfforaethol a byddai'n rhaid ymgynghori gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol.

Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi rhedeg cynllun peilot, nid yw canlyniad y cynllun yn wyddys hyd yn hyn.

***PENDERFYNWYD***:-

*(i) Bod y Pwyllgor yn derbyn a nodi'r adroddiad*
*(ii) Bod adroddiad amlasiantaethol a dadansoddiad risg/effaith ynghyd â drafft Strategaeth Safleoedd Carafannau Sir Ddinbych yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2013 i'w hystyried gan yr Aelodau.*

*Gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor amrywiodd y Cadeirydd y trefn busnes yn y cyswllt hwn.*

**7 GWELLA EIN DULLIAU DARPARU GWASANAETHAU PRIFFYRDD/ TIR Y CYHOEDD**

Cyflwynodd Pennaeth yr Amgylchedd adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) yn diweddaru'r aelodau am aildrefnu Gwasanaethau Priffyrdd/Tir y Cyhoedd y Cyngor.

Ar 18 Rhagfyr 2012, penderfynodd y Cabinet aildrefnu gwasanaethau priffyrdd/tir y cyhoedd y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn amlinellu sut yr oedd syniadau'n cael eu datblygu a'u gweithredu. Roedd cyflwyno'r adroddiad yn darparu cyfle i Aelodau'r Pwyllgor siapio'r canlyniad terfynol.

Yr amcanion allweddol a osodwyd ym mhenderfyniad y Cabinet ym mis Rhagfyr 2012 oedd:

(i) Achosi newid diwylliant drwy raglen newid sydd wedi'i rheoli a'i gynllunio'n dda gan roi cwsmeriaid yng nghanol y modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu.
(ii) Datblygu tîm rheoli cryf er mwyn cyflawni'r rhaglen newid a rheoli gwelliant parhaus wedi hynny.
(iii) Gwella hydwythedd y Cyngor wrth ddelio â chynnal a chadw yn y gaeaf a sefyllfaoedd argyfwng.
(iv) Datblygu systemau gweithredol sy'n effeithlon a hyblyg.
(v) Ymgysylltu'n effeithiol gyda chynllun cenedlaethol at wasanaeth trafnidiaeth rhanbarthol.

Byddai'r prosiect yn rhaglen parhaus tair blynedd. Byddai'r Uned Waith sydd newydd ei gyfuno yn caffael gwaith yn y dulliau mwyaf cost effeithlon. Gall hyn olygu defnyddio contractwyr lleol yn hytrach na staff mewnol. Byddai goruchwyliaeth agosach o'r gwaith y telir amdano yn cael ei gynnal, ac yn gyffredinol byddai'n darparu gwell gwerth am arian gan y byddai ansawdd y gwaith yn well ac felly'n parhau'n hirach.

Bydd gweithgareddau cynnal a chadw rheolaidd yn cael eu cynnal gan dimau gweithredol wedi'u huno gydag un pwynt cyswllt yn rheoli pob tîm. Roedd hyn yn cael ei gyfeirio ato fel Model Strydwedd. Yn gyffredinol, byddai llai o Reolwyr Gwasanaeth gyda mwy o ddirprwyo i staff coler las. Byddai defnyddio staff asiantaeth yn dod i ben dros amser. Byddai'n rhaid i'r staff coler las ymroi i hyblygrwydd wrth weithio. Byddai'n rhaid archwilio oriau blynyddol ac amlorchwyl a'u trafod gyda'r Undebau. Petai gweithlu fechan ac effeithlon yn gweithio'n hyblyg, dyna'r dull gorau o ddiogelu swyddi.

Gyda'r defnydd o Reoli Cyswllt Cwsmer, a gyda model Strydwedd ar waith, byddai cwsmeriaid y dyfodol yn derbyn ymatebion cyflymach ac ymatebion terfynol i unrhyw ymholiadau fyddai'n cael eu cyflwyno. Byddai ymatebion Rheoli Cyswllt Cwsmer yn cael eu monitro i sicrhau bod terfynau amser yn cael eu cadw.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau'n derbyn yr adroddiad ac yn cefnogi cyfeiriad cyffredinol y gwaith mewn perthynas â gwella darpariaeth gwasanaeth.*

**8 CYFLWR PRIFFYRDD Y SIR**

Cyflwynodd Rheolwr Strategol Priffyrdd adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i amlinellu cyflwr cyfredol rhwydwaith priffyrdd y Sir ac adnabod mannau sydd angen gwaith cynnal a chadw gan gynnwys y paramedrau a methodoleg datblygu drafft rhaglen waith tair blynedd.

Rôl Rheoli Asedau oedd sicrhau fod y Cyngor yn derbyn y gwerth gorau o'r buddsoddiad a wneir yn y priffyrdd yn unol â'r technegau diweddaraf o ran rheoli asedau.

Roedd datblygiad y rhaglen yn fwyfwy seiliedig ar dystiolaeth. Roedd y broses yn seiliedig ar nifer o ddangoswyr cyflwr, barn y Rheolwr Rhwydwaith a Pheirianwyr Ardal, ymgynghori gyda Chynghorau Tref a Chymuned, a thrafodaethau a chytundebau gyda Grwpiau Ardal yr Aelodau.

Dangoswyr cyflwr oedd:-

- SCANNER (Asesiad Cyflwr Arwyneb ar gyfer Rhwydwaith Cenedlaethol Ffyrdd). Roedd yr arolwg yn cael ei gwblhau'n flynyddol ond nid oedd yn cynnwys y rhwydwaith gyfan ac roedd yn wael iawn ar ffyrdd C/di-ddosbarth, sef y rhan fwyaf o rwydwaith Sir Ddinbych.
- SCRIM (Peiriant Archwilio Cyfernod Rheolaidd Grym i'r Ochr). Yn mesur gwrthiant llithro gwlyb a phroffil arwyneb y ffordd ac roedd y cynnwys yn debyg i arolwg SCANNER. Oherwydd arwyddocâd y data, roedd yn tanategu'r penderfyniad ynglŷn â pa ffyrdd i'w cynnal a'u cadw.
- RCI (Dangosydd Cyflwr Ffordd). Mesur lleol o gyflwr gweledol holl ffyrdd sy'n y sir. Roedd Goruchwylwyr Priffyrdd y Cyngor yn archwilio'r priffyrdd yn rheolaidd. Data RCI oedd y dangosydd gorau o gyflwr y priffyrdd gan ei fod yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac yn cynnwys y rhwydwaith gyfan.

Roedd y rhaglen ar gyfer eleni ar waith eisoes ac roedd angen gwaith parhaus gyda'r prosesau cyfredol ar gyfer rhaglen 2014/15. Argymhellwyd y dylid sefydlu Gweithgor i ddatblygu strategaeth ar gyfer rheoli ased priffyrdd a fyddai yn sail ar

gyfer dyrannu cyllid cyfalaf yn y dyfodol, ac y byddai Aelod o bobl Grŵp Ardal yr Aelodau yn rhan o'r Gweithgor. Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio y bydd hi'n cysylltu â Rheolwr Cyswllt y Gymuned i drefnu hyn. Byddai cyflwr y priffyrdd yn cael eu hadolygu'n flynyddol ar ddiwedd tymor y gaeaf.

Mynegodd y Cynghorydd Cefyn Williams bryder ynglŷn â safon y ffyrdd yn ei ardal leol. Darllenodd y Cynghorydd Williams ddatganiad o Adroddiad Gwelliant Blynyddol 2013 ar gyfer Sir Ddinbych gan Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn nodi bod ffyrdd mewn "lleoliadau megis Dyffryn Dyfrdwy yn ymddangos i fod mewn cyflwr gwael iawn". Roedd yn dymuno nodi nad oedd ganddo unrhyw gŵyn yn erbyn unrhyw swyddogion ond roedd yn dymuno mynegi ei anfodlonrwydd gyda chyflwr y ffyrdd. Cytunodd y Rheolwr Strategol Priffyrdd i gyfarfod gyda'r Cynghorydd Williams i drafod y mater ar achlysur gwahanol tu allan i'r cyfarfod hwn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Adain: Rheolwr Rhwydwaith i'r Pwyllgor bod yr holl ffyrdd yn y sir yn cael eu harolygu o leiaf ddwy waith y flwyddyn. Roedd pedwar cylch data wedi'u casglu dros y ddwy flynedd diwethaf ac roedd rhestr o'r ffyrdd gwaethaf yn y sir wedi'i chreu. Cadarnhaodd y Rheolwr Strategol Priffyrddy byddai drafft o Strategaeth Rheoli Ased y Priffyrdd yn cael ei lunio. Cadarnhaodd Pennaeth yr Amgylchedd y byddai Cynllun Cyfalaf Priffyrdd am 3 blynedd yn cael ei ffurfio.

***PENDERFYNWYD***:-

*(i) Bod yr Aelodau'n derbyn ac yn cymeradwyo'r adroddiad*
*(ii) Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno drafft Strategaeth Rheoli Ased Priffyrdd i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Tachwedd 2013 yn dilyn sefydlu'r Gweithgor.*

## 9 STRATEGAETH TAI LLEOL

Cyflwynodd Uwch Swyddog – Strategaethau a Phartneriaethau adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i ddarparu cyfle i'r Aelodau roi sylwadau am ddrafft Strategaeth Tai Lleol cyn ymgynghoriad ehangach.

Roedd Strategaeth Tai Lleol yn gosod sefyllfa tai lleol cyfredol ar draws pob daliadaeth ac yn darparu cyfarwyddiaeth strategol am bum mlynedd. Sefydlwyd y Strategaeth Tai Lleol yn 2007 ac roedd yn cael ei hadolygu'n llawn ar hyn o bryd.

Roedd Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda Phrifysgol Glyndŵr i ddatblygu Strategaeth Tai Lleol gan eu bod yn cynnig cyfoeth o arbenigedd, ac roedd ganddynt gofnod da ac yn cyflwyno gwerth am arian.

Bydd Strategaeth Tai Lleol yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Medi 2013.

Gwnaed cais i'r Rheolwr Tai Cymunedol am brisiau yn dangos cymhariaeth o fyw mewn ardal wledig gyda byw mewn ardal ddinesig. Cadarnhaodd y Rheolwr Tai Cymunedol bod Swyddog Ymchwil newydd wedi'u penodi a byddai'r ffigurau ar gael mewn tua chwe mis.

***PENDERFYNWYD**:-*

(i) *Bod yr Aelodau'n derbyn ac yn nodi'r adroddiad a drafft Strategaeth Tai Lleol 2013-18*

(ii) *Y bydd "adroddiad gwybodaeth" chwarterol ar gynllun gweithredu Strategaeth Tai Lleol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor er diben monitro, gyda'r amod y gellir galw'r Aelodau neu'r swyddogion arweiniol i mewn petai unrhyw feysydd pryder yn dod i'r amlwg.*

**10 Y NEWYDDION DIWEDDARAF AR WASANAETHAU MEWNOL A ARIENNIR GAN CEFNOGI POBL YN SIR DDINBYCH**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Bennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Phlant adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chyllid y gwasanaethau mewnol sy'n cael ei ddarparu gan Rhaglen Cefnogi Pobl yn Sir Ddinbych a'r cynlluniau i ddiogelu'r gwasanaethau yn dilyn toriadau cyllid Cefnogi Pobl.

Roedd y Cabinet wedi gofyn i Bwyllgor Archwilio Cymunedau ystyried effaith y trefniadau newydd ar ddarpariaeth a chyllid gwasanaethau Cefnogi Pobl yn Sir Ddinbych, gan gynnwys canfod pwysau yr achosir a datrysiadau posibl i liniaru unrhyw bwysau.

Lansiwyd rhaglen Cefnogi Pobl ddeng mlynedd yn ôl. Roedd cyllid ar gyfer gwasanaethau mewnol allweddol sy'n cael eu cefnogi gan raglen Cefnogi Pobl yn Sir Ddinbych yn cynnwys:-

- Tai Gofal Ychwanegol
- Cefnogaeth i bobl gydag Anabledd Corfforol
- Cefnogaeth i bobl gydag Anghenion Iechyd Meddwl
- Cefnogaeth i bobl sydd ag Anabledd Dysgu
- Gwasanaethau Teleofal
- Gwasanaethau Ailalluogi

Bydd cyllideb Cefnogi Pobl Sir Ddinbych yn wynebu toriadau o tua £330 mil y flwyddyn ar gyfer 2014/15 a 2015/16. Byddai hyn yn raglen pum mlynedd o doriadau gan achosi cyfanswm o ostyngiad o 20% i Grant Rhaglen Cefnogi Pobl Sir Ddinbych. Byddai hyn yn gyfystyr â toriadau o dros £70,000 y flwyddyn am y ddwy flynedd nesaf yn y gefnogaeth a ddarperir i Wasanaethau Oedolion Sir Ddinbych. Ar ddiwedd y cyfnod o ddwy flynedd, byddai posibilrwydd o doriadau pellach.

Roedd yn angenrheidiol sicrhau bod yr holl wasanaethau'n cael eu cefnogi'n llawn, gan gydymffurfio ag amodau'r grant, fel arall gallai'r cyllid gael ei adennill yn ôl.

Derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru ar y bore y cynhaliwyd Pwyllgor Archwilio Cymunedau, ac mae dyfyniad ohono fel a ganlyn:-

“Rwyf eisiau sicrhau bod awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth yn cyllido ar gyfer toriadau pellach. Mae Bwrdd Ymgynghorol Cenedlaethol Cefnogi Pobl yn ystyried toriadau pellach”.

Eglurodd Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl i’r Pwyllgor bod contractau cyflogaeth wedi’i hailysgrifennu i adlewyrchu’r hyn y mae’r staff yn ei wneud. Roedd nifer o brosiectau wedi’u canslo. Mewn perthynas â thoriadau cyllid pellach, bydd yn rhaid i Gefnogi Pobl wneud penderfyniadau pa brosiectau sy’n berthnasol i’w cyllido’n strategol. Mae’n rhaid i anghenion yr holl bobl sydd eu hangen fwyaf gael eu cyflawni.

Cynigiwyd, ar ôl derbyn manylion toriadau pellach, y dylid cyflwyno adroddiad Rhaglen Cefnogi Pobl i’r Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD:-:***

*(i) Bod yr Aelodau’n derbyn ac yn nodi’r adroddiad*

*(ii) Y bydd adroddiad yn diweddaru’r Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn rhoi manylion am doriadau pellach sy’n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2013, eu heffaith ar wasanaethau sy’n cael eu darparu gan y Cyngor, a’r camau y dylid eu cymryd i liniaru effeithiau ar ostyngiadau cyllid a diogelu pobl sy’n agored i niwed.*

## 11 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad gan Gydlynydd Archwilio (a gylchredwyd yn flaenorol) yn gofyn am adolygiad yr Aelodau o Raglen Waith i’r Dyfodol y Pwyllgor a darparu diweddariad ar faterion perthnasol. Roedd drafft Rhaglen Waith i’r Dyfodol (Atodiad 1); Ffurflen cynnig Eitem ar gyfer Rhaglen y Pwyllgor Archwilio – Grant Athletwyr Talentog (Atodiad 2); Rhaglen Waith i’r Dyfodol y Cabinet (Atodiad 3) a Chynnydd ar Benderfyniadau’r Pwyllgor (Atodiad 4) wedi’u hatodi i’r adroddiad.

Cytunodd yr Aelodau ar yr addasiadau canlynol i’r Rhaglen Waith -

- Hydref – Drafft Astudiaeth Rheoli Llifogydd a drafft Strategaeth Safleoedd Carafannau i’w hychwanegu at y Rhaglen Waith i’r Dyfodol
- Tachwedd – ychwanegu drafft Strategaeth Rheoli Asedau Priffyrdd a Chynllun Cyfalaf Tair Blynedd at Raglen Waith i’r Dyfodol

Ynglŷn â ffurflen gais a gyflwynwyd ar gyfer ychwanegu “Grant Athletwyr Talentog” at raglen fusnes Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn y dyfodol, yn anffodus oherwydd pwysau rhaglen waith a’r ffaith nad oedd ‘effaith’ yr eitem wedi derbyn sgôr uchel, penderfynodd y Pwyllgor beidio â’i gynnwys ar y rhaglen waith i’r dyfodol.

Yng nghyfarfod diweddar Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio, cytunwyd y byddai disgwyl i’r Aelod Arweiniol ar gyfer pwnc adroddiad gyflwyno ac arwain eitem, gyda’r swyddog yn bresennol i’w cefnogi yn y dyfodol. Byddai protocol yn cael ei lunio ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol. Mae cyfarfod wedi’i drefnu rhwng Aelodau Arweiniol a Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio ddechrau mis Medi.

Gofynnodd y Cynghorydd Bob Murray am wybodaeth ynglŷn â rhybuddion cosb dirwy benodedig a roed gan Kingdom yn cael ei dderbyn ar unwaith yn hytrach nag aros tan yr eitem ar y rhaglen ym mis Hydref.

Gofynnodd y Cydlynydd Archwilio am gynrychiolydd o'r Pwyllgor ar gyfer Fforwm Rhianta Corfforaethol. Argymhellwyd y Cynghorydd Win Mullen James. Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio y byddai'n cysylltu â'r Cynghorydd Win Mullen James.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo'r rhaglen waith i'r dyfodol fel y manylir yn Atodiad 1 yn amodol ar yr uchod.*

## 12 ADBORTH ODDI WRTH GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dim.

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 12.35PM.**